

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 2il 2017 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Gary Thomas (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Eifion Davies, Dewi Pritchard, Gwynedd Jones, Rita Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gethin Morris, Iolo Evans, Alwyn Jones, Gwenda Morris, Maldwyn Jones, Gwenda Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Etholiadau Cynghorau Thref a Chymuned – 3/5/17.

Derbyniwyd copi o'r rhybudd yn datgan y rhai a oedd wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad fel aelodau o'r Cyngor a chwblhawyd y ffurflenni derbyn swydd. Cafwyd cadarnhad bod sedd wag yn ward Llanybetws a chytunwyd i arddangos yr hysbysiadau perthnasol.

Cyfarfod Blynyddol.

Gan nad oedd Gwenda Morris yn bresennol cytunodd Gary Thomas i gadeirio'r cyfarfod a chytunwyd i ethol is-gadeirydd yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

a) Etholwyd y cynrychiolwyr canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies. Gan nad oedd Gethin Morris yn bresennol gofynnwyd i'r clerc cael cadarnhad ganddo os oedd yn fodlon parhau i fynychu'r pwyllgorau.

Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands

Llywodraethwyr Ysgol Ffridd Y Llyn: Eifion Davies

Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones

b) Cyfrifon 2016-17.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2016-17 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

c) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerc bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd a chytunwyd i apwyntio John Roberts i wneud yr archwiliad mewnol fel yr arfer.

ch) Adolygu Asedau, Polisiâu a Rheoliadau'r Cyngor.

Cytunwyd bod y Rheoliadau Mewnol ac Asesiad Risg presennol yn gywir. Adolygwyd y rhestr asedau a chytunodd y cynghorwyr i archwilio sied mynwent Llandderfel a'r llochesi bws ac adrodd yn nol am eu cyflwr yn y cyfarfod nesaf.

d) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd.

Cytunwyd i gadw'r ffioedd presennol.

Cyfarfod Misol.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

a) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

b) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

i) Cafwyd cadarnhad gan y clerc bod y cerbyd a oedd wedi cael ei adael ym mhentref Llanfor wedi cael ei symud.

ii) Cwynion a anfonwyd i'r Asiantaeth Cefnffyrdd ym mis Mawrth - nid oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw sylwadau am y materion a godwyd ac nid oedd unrhyw welliannau wedi cael ei wneud felly gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

c) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol

- i) Parc Cenedlaethol Eryri – Copi o’i rhaglen cyfarfodydd am 2017-18.
- ii) Llywodraeth Cymru – Derbyniwyd copi o’r ddogfen ‘Canllaw’r Cynghorydd Da’.
- iii) CFFI Sarnau - Derbyniwyd llythyr gan y clwb yn egluro eu bwriad i godi arian er mwyn prynu diffibriliwr i bentref y Sarnau. Gofynnwyd a byddai’r Cyngor Cymuned yn gallu eu cynorthwyo drwy adhawlio’r TAW, yswirio’r offer ayyb. Cytunodd y clerc wneud ymholiadau gyda’r archwilydd mewnol a’r cwmni yswiriant.
- iv) Diogelwch cerddwyr ger cae chwarae Llandderfel - yn dilyn damwain ym mis Mawrth lle cafodd ci un o drigolion y pentref ei ladd ger mynediad y cae chwarae roedd y Cyng. Elwyn Edwards wedi cyfarfod gydag un o swyddogion Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i geisio diogelu’r safle. Yn dilyn y cyfarfod roedd y swyddog wedi trefnu i osod peiriant mesur cyflymder cerbydau ar y safle yn ogystal ag arwyddion mwy gweladwy ac adnewyddu’r marciau ffordd bresennol. Cynigwyd hefyd i drefnu i’r swyddog Diogelwch y Ffordd ymweld ag Ysgol Ffridd y Llyn i gynnal gweithgareddau diogelwch y ffyrdd gyda’r disgyblion.
- v) Cyngor Gwynedd - derbyniwyd cais am gopi o dystysgrif yswiriant Neuadd Sarnau. Gan fod ansicrwydd pam bod y Cyngor Cymuned eu hun wedi derbyn y cais yn hytrach na phwyllgor y Neuadd gofynnwyd i’r clerc wneud ymholiadau.
- vi) Cais gan Eluned Morgan, Aelod Cynulliad i arddangos posteri gyda’i manylion cyswllt.
- vii) Cytunwyd i roi caniatâd i gwmni teledu Rondo i ffilmio eitem ym mynwent Llanfor ar gyfer rhaglen deledu newydd. Cytunodd Gary Thomas i ymweld â’r fynwent i sicrhau bod y gwaith torri coed wedi cael ei gwblhau.

ch) Ceisiadau Cynllunio.

- i) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i’w chefnogi:-
C17/0319/04/TR – Gosod llinell drydan. Tyn y Fron, Glanrafon.

d) Materion Ariannol.

- i) Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £5,500.

ii) Cytunwyd i dalu’r canlynol:-

John Roberts (archwilio cyfrifon 2016-17)

Came & Company (Yswiriant)

dd) Unrhyw Fater Arall

Cytunwyd i basio’r cwynion canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd a’r Asiantaeth Cefnffyrdd.

- i) Pont Cwm Main- Roedd cerbyd wedi hitio ochr y bont ac roedd pryder am ei gyflwr a diogelwch y gyrwyr a oedd yn ei ddefnyddio.
- ii) Bin sbwriel cyhoeddus ym mhentref Sarnau – Gan nad oedd Cyngor Gwynedd wedi ail leoli’r bin fel y addawyd roedd ymwelwyr yn dal i’w ddefnyddio ac roedd sbwriel yn gorlifo allan.
- iii) Giataiau pren ar y llwybr cyhoeddus rhwng Llanfor a Bala - Ar ôl i gerbyd eu hitio roedd y giataiau ar eu hochr a gofynnwyd i’r clerc wneud ymholiadau os oedd bwriad i’w ail osod.
- iv) Polyn trydan ar gyffordd Cwm Main a’r A494, Cefnddwysarn -Yn dilyn cyfarfod safle yn 2011 nid oedd unrhyw gamau wedi cael eu cymryd i symud y polyn. Gan fod y Cyngor yn dal i dderbyn cwynion am y diffyg gweledd ar y gyffordd cytunwyd bod angen ail edrych i mewn i’r mater.